
Cyngor Sir Gâr

# Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Wasanaeth Llyfrgelloedd Sir Gâr

## 2025 - 2030



sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

SR-35864

## Gweledigaeth

Bod yn wasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus cynhwysol, modern, cynaliadwy o safon uchel yng nghalon pob cymuned yn Sir Gaerfyrddin.

## Rhai Ffeithiau

To play a part in providing accessible, inclusive, exciting, sustainable services, which promote and facilitate learning, culture, heritage, information, well-being and leisure.




## Cenhadaeth

Chwarae rhan Chwarae rhan yn darparu gwasanaethau hygyrch, cynhwysol, cyffrous a chynaliadwy sy'n hyrwyddo a hwyluso dysgu, diwylliant, treftadaeth, gwybodaeth, llesiant a hamdden yn darparu gwasanaethau hygyrch, cynhwysol, cyffrous a chynaliadwy sy'n hyrwyddo a hwyluso dysgu, diwylliant, treftadaeth, gwybodaeth, llesiant a hamdden.

Gyda mwy na 21,000 o ymweliadau â'n llyfrgelloedd bob wythnos, mae ymweliadau â'r llyfrgell yn cynrychioli'r rhyngweithiad gwirfoddol rheolaidd mwyaf y mae'r Cyngor Sir yn ei gael gydag aelodau'r gymuned.

Bob blwyddyn, mae mwy na:

- 180,000 o ymholiadau'n cael eu hateb
- 1 miliwn o eitemau'n cael eu benthyg
- 875 o ddigwyddiadau diwylliannol, dysgu, darllen a chymunedol yn cael eu darparu gyda dros 25,000 o bobl yn bresennol.
- 230,000 o ryngweithiadau ar-lein




## Gwasanaeth rheng flaen uniongyrchol

- Mae'r gwasanaeth yn ofyniad statudol yn ôl yr hyn a ddiffinnir yn y Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964, sy'n cael ei rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.
- Mae'r gwasanaeth yn ystyried ei hun yn wasanaeth rheng flaen sy'n cefnogi strategaethau corfforaethol yr awdurdod sy'n tanategu blaenoriaethau'r awdurdod lleol megis llesiant, twf economaidd a chynhyrchiant, a chydlyniant cymdeithasol a symudedd.

## Strategaeth i gadw gwasanaethau llyfrgelloedd CSC yn berthnasol ac yn hygyrch



Nod y gwasanaeth yw datblygu ar sail 5 cynnig cyffredinol sy'n hyrwyddo neges graidd ar lefel genedlaethol, gan gysylltu â Pholisïau’r Llywodraeth, Strategaethau a Fframweithiau Llyfrgelloedd, ond caniatáu modd i addasu er mwyn cyd-fynd ag anghenion a blaenoriaethau lleol.

## Cynnig Dysgu

Mae'r Cynnig Dysgu yn cynnig cwmpas i lyfrgelloedd ddatblygu a hyrwyddo eu cyfraniad at ddysgu gydol oes, drwy adnoddau dysgu am ddim ar gyfer astudio a dysgu, megis adnoddau a chyrsiau ar-lein, llyfrau testun a llyfrau cyfeirio, mannau astudio a chymdeithasu a chyfleoedd sy'n galluogi creadigrwydd a rhannu syniadau.




## Cynnig Gwybodaeth

Mae'r Cynnig Gwybodaeth yn canolbwyntio ar rôl gynyddol ein llyfrgelloedd yn cefnogi pobl i gael mynediad i wybodaeth sy'n hanfodol i fywyd megis chwilio am swyddi, budd-daliadau, cyllid personol ac iechyd. Yn ganolog i'r cynnig hwn y mae helpu pobl i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein hanfodol y llywodraeth.

## Cynnig Darllen

Datblygwyd mewn partneriaeth â'r Reading Agency, mae'r Cynnig Darllen yn canolbwyntio ar rôl llyfrgelloedd wrth hyrwyddo llythrennedd a manteision darllen. Mae'r ffocws ar weithio mewn partneriaeth gyda phwyslais ar raglenni darllen parhaus.

## Cynnig Digidol

Mae'r Cynnig Digidol yn tanategu'r cynigion eraill gan fod datblygu gwasanaethau digidol, darparu mynediad a chefnogi pobl i wella eu sgiliau digidol yn cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer gwasanaeth llyfrgell modern.

## Cynnig Iechyd

Mae'r Cynnig Iechyd yn ymrwymiad gan y gwasanaethau llyfrgelloedd i ddarparu mynediad i wybodaeth am hyrwyddo, cyfeirio at wasanaethau ac atgyfeiriadau iechyd yn ogystal â gweithgaredd darllen creadigol a chymdeithasol. (e.e. Presgripsiwn Llyfrau Cymru a Llyfrau Darllen yn Dda ar Bresgripsiwn).

# Perthnasedd i Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

Gellir mapio'r Cynigion Cyffredinol hyn yn uniongyrchol i'r canlyniadau a'r effeithiau sy'n cael eu nodi yn Fframweithiau Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

## Sut ydyn ni’n gwneud?



Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru Llywodraeth Cymru - Asesiad o'r ffurflen flynyddol ar gyfer 2015/2016

- Mae Sir Gaerfyrddin yn bodloni 17 o 18 o'r hawliadau craidd yn llawn ac yn bodloni 1 yn rhannol. Arweinyddiaeth a Datblygu yw'r maes lle bodlonir yr hawliad yn rhannol, lle mae strategaeth y llyfrgell yn cael ei datblygu. (Mawrth 2017)
- O blith y 7 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, llwyddodd Sir Gaerfyrddin i gyflawni'r 7 yn llawn, sy'n welliant ers llynedd. Hefyd roedd yn un o ddau awdurdod yn unig yng Nghymru i gyflawni hyn yn 2015/16.
- Llwyddodd Sir Gaerfyrddin i gyflawni'r dangosyddion ansawdd ar gyfer Dysgu i Fyw o ran deunydd darllen diweddar a phriodol, un o blith 4 awdurdod yn unig i wneud hyn. Mae'r gwariant ar ddeunydd cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu sy'n golygu bod y targedau a osodwyd ar gyfer 2015/16 wedi'u cyrraedd, sy'n welliant ers llynedd.
- Mae lefelau staffio'n parhau i gyrraedd y targedau o ran niferoedd cyffredinol a staff proffesiynol cymwys.
- Y lefelau hyfforddiant staff yw'r trydydd uchaf yng Nghymru.
- Mae pob llyfrgell bellach yn cynnig mynediad i gyfrifiaduron cyhoeddus a Wi-Fi a gafodd eu diweddaru yn ystod 2015-16.
- Cafwyd gwelliant sylweddol o ran cyflymder cyflawni ceisiadau, yn bennaf y canran sy'n cael eu cyflenwi cyn pen 15 diwrnod, sydd bellach yr uchaf yng Nghymru.
- Y gyfartaledd cost fesul ymweliad ar gyfer 2015/16 oedd £2.18 net a hynny wrth gymharu â chyfartaledd Cymru sy'n £2.88.

# Haenau Gwasanaethau

Mae'r rhain wedi'u gosod i bedair haen o ran darpariaeth gwasanaethau ar sail lefel eu defnydd, lleoliad adeilad y llyfrgell a'r boblogaeth sy'n cael ei gwasanaethu, er mwyn darparu'r gwasanaeth craidd cywir ac effeithiol i'r bobl iawn yn y mannau iawn.



| |
|---|
| **Haen 1**<br>Llyfrgelloedd Rhanbarthol gydag ymweliadau rhwng 145,000 a dros 500,000+ y flwyddyn. |
| **Haen 2**<br>Llyfrgelloedd Cymunedol sydd ar agor am fwy na 15 awr yr wythnos. |
| **Haen 3** 0<br>Llyfrgelloedd Cangen sydd ar agor am lai na 15 awr yr wythnos. |
| **Haen 4**<br>Llyfrgelloedd symudol. |

# Cerbydau Newydd ar gyfer Llyfrgelloedd Teithiol 2017





## Sefydlu'r Gwasanaeth Newydd

- Cytuno ar gynllun llwybrau newydd cynhwysfawr, sy'n bodloni gofynion fframwaith y Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn y dyfodol.
- Gwella gwybodaeth, llythrennedd digidol ac iechyd ledled y sir.
- Gwella cyflogadwyedd drwy gael mynediad i wasanaethau ac adnoddau ar-lein drwy weithio mewn partneriaeth.
- Darparu cysylltiadau cymdeithasol a chymunedol i bobl sy'n aml yn anodd eu cyrraedd.
- Cyflwyno gwasanaeth caeth-i'r-cartref newydd a gwell er mwyn bodloni galw a gofynion defnyddwyr.

## **Cymharu gwasanaethau Teithiol a Sefydlog**

- Rydym yn anelu at adolygu'r defnydd o'r gwasanaethau teithiol newydd a'r gwasanaeth cangen yn ogystal â'u lleoliadau er mwyn pennu eu gwerth a'u cyfraniad at y gymuned; rydym yn cydnabod bod rhai o'n llyfrgelloedd "Haen 3" bellach yn gwasanaethu nifer bach iawn o fenthycwyr yn unig, ac o ganlyniad mae angen i ni sicrhau parhad gwasanaethau llyfrgelloedd o safon ledled y sir sy'n gallu dangos y gwerth gorau.
- Yn bwysig iawn, os bydd y gwasanaeth gan y llyfrgelloedd cymunedol yn newid, yna bydd y gwasanaeth teithiol yn chwarae rhan hyd yn oed yn fwy blaenllaw o ran darparu gwasanaethau llyfrgelloedd yn unol â'r gofynion statudol.




# Cynllunio i'r dyfodol

## Llyfrgell Gyfeirio Caerfyrddin a'r Gwasanaeth Archifau

Bydd adleoli Gwasanaeth Archifau Sir Gaerfyrddin i adeilad pwrpasol gerllaw Llyfrgell Caerfyrddin yn cynnig cyfle delfrydol i'r Gwasanaeth Cyfeirio a Gwybodaeth ddod yn ganolfan ddiwylliannol ar gyfer ymchwil yn y sir.

Hwn fyddai'r man cyswllt cyntaf i aelodau'r cyhoedd, gan wella ac ehangu cysylltiadau, datblygu partneriaethau â chydweithwyr yn y Gwasanaeth Archifau, ac ar yr un pryd cynnal safonau proffesiynol yr archifwyr a'r llyfrgellwyr o fewn y gwasanaeth sirol sydd newydd ei gyfuno.

Drwy weithio mewn partneriaeth, bydd casgliadau'r Llyfrgell ac Archifau yn cyrraedd eu gwir botensial o ran bod yn hygyrch, yn berthnasol ac yn fwyaf pwysig, ar gael i bawb.

Cyfleoedd:

- Gweithio gydag Archifau Sir Gaerfyrddin i ddatblygu canolfan ddiwylliannol newydd ar gyfer ymchwil yn Llyfrgell Caerfyrddin
- Hyfforddi staff y llyfrgell o ran y system reoli/catalog archifau, a meysydd eraill y mae eu hangen arnynt er mwyn sicrhau bod pob dim yn hwylus yn yr adran
- Gweithio mewn partneriaeth ag amgueddfeydd lleol, orielau a chyfleusterau diwylliannol i greu gweithgareddau a digwyddiadau ar gyfer y gymuned er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n ymgysylltu â diwylliant
- Darparu gwasanaeth ymchwil proffesiynol i hanes lleol gan ddefnyddio strwythur prisio er mwyn cynhyrchu incwm

# Prosiect Treftadaeth / Digidol

- Bydd y prosiect yn darparu siop un stop sy'n cynnig mynediad ar-lein i'r casgliadau hanesyddol pwysig sy'n cael eu cadw yn rhan o Wasanaethau Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin.
- Gellid cynnal 'ffenest siop' y prosiect ym Mharc Howard fel rhan o'r datblygiadau yn y plasty, gan alluogi unrhyw un i ddigido ei wybodaeth ei hun er mwyn ei rhannu ar y wefan Treftadaeth. Bydd lleoliadau eraill yn cael eu nodi i gynnal sesiynau 'Cynnal Labordy'.
- Bydd lleoliadau dros dro yn cael eu cynnal ledled y Sir a fydd yn ymgysylltu â phreswylwyr, yn codi ymwybyddiaeth ac yn hyrwyddo pwysigrwydd y prosiect Treftadaeth, ac yn annog eraill i rannu data.



## Datblygu Isadeiledd

- Bydd y wefan yn un sy'n datblygu ac yn cynnwys, nid yn unig gyfraniadau o blith yr eitemau sydd eisoes gan y Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd ond hefyd cyfraniadau gan y cyhoedd; o safbwynt y defnyddiwr bydd sgrin gyffwrdd yn sicrhau mynediad hawdd boed o fewn ardaloedd y gwasanaeth sefydlog neu'r gwasanaeth teithiol.
- Mae cyfleoedd am e-fasnach yn cynnwys gwerthu delweddau ar-lein y gellir eu lawrlwytho neu'u hargraffu ar nwyddau. Gall yr agwedd ar e-fasnach gynhyrchu incwm y gellir ei ail-fuddsoddi er mwyn cynnal y wefan gan sicrhau bod eitemau hanesyddol pwysig yn cael eu cadw.
- Mae'r prosiect yn gyfle gwych i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd i weithio gyda'i gilydd a darparu cronfa ddata ar-lein o'u holl ddaliadau i'r cyhoedd yn fyd eang a hynny 24/7.
- Rydym yn chwilio am enw/brand priodol – mae croeso ichi roi unrhyw awgrymiadau ar gyfer y prosiect treftadaeth cyffrous hwn.

# Datblygiad Proffesiynol Parhaus



## Buddsoddi yn ein Staff

- Ein nod yw parhau i ddarparu a bod yn wasanaeth llyfrgell o safon uchel sy'n canolbwyntio ar bobl; gwneir hyn yn rhannol drwy fabwysiadu dull cyson o ran hyfforddi a datblygu staff drwy'r gwasanaeth. Mae'r holl staff yn y gweithle yn cael eu cylchdroi i'r holl feysydd/mannau gwasanaeth er mwyn i'r staff ddatblygu a throsglwyddo gwybodaeth ac arferion gweithio ledled yr holl feysydd gwasanaeth.
- Mae gofal cwsmeriaid a sgiliau'n ymwneud â chwsmeriaid yn elfennau allweddol ar gyfer aelodau staff y llyfrgell ac mae Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin wedi gweithio'n ddiweddar gyda'r ganolfan Cynllunio drwy Gymorth Cyfrifiadur (gwella dysgu a sgiliau) i gofrestru nifer helaeth o staff y llyfrgelloedd ar gyrsiau'r ganolfan gan gynnwys Sgiliau Gofal Cwsmeriaid, TGCh, at ati.
- Mae pecyn hyfforddiant mewnol parhaus yn cael ei ddarparu i'r holl aelodau o staff yn enwedig hyfforddiant ar wasanaethau ar-lein ac amcanion Llywodraeth Cymru; yn ogystal, sefydlwyd gweithgor er mwyn datblygu hyfforddiant yn y Gymraeg ledled y gwasanaeth.
- Mae hyfforddiant o ran y Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno fesul cam gan roi cyfle i Lyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin i ddatblygu a gwella eu gwasanaethau TG a'u darpariaeth wrth baratoi ar gyfer hyn. Rhagwelir y bydd cynllun Gwasanaeth Digidol llawn ar waith yn genedlaethol a fydd yn cael ei gwblhau erbyn mis Mehefin 2018.





## Gweithio tuag at Ddewis Cyflenwr / Dosbarthu Uniongyrchol

**Gweinyddu Dosbarthu Uniongyrchol** – drwy ddatblygu eitemau sy'n barod i'w gosod ar y silffoedd yn uniongyrchol i lyfrgelloedd unigol, gan ddileu'r angen am brosesu canolog a dosbarthu mewnol.

**Gweinyddu Dewis Cyflenwr** - nodi a sicrhau eitemau stoc gan bennu ymrwymiad blynyddol o ran y gyllideb fesul llyfrgell, a fesul y math o ddeunydd yn unol â rheoliadau ariannol Cyngor Sir Gaerfyrddin.

**Arbedion Ariannol Posibl** – **gweithio tuag at y targedau** – Gweithio gyda Thîm TIC Cyngor Sir Caerfyrddin er mwyn gweinyddu a datblygu arfer gorau ar gyfer Cyflenwad Uniongyrchol a Dewis Cyflenwr ar gyfer Llyfrgelloedd Cyngor Sir Caerfyrddin.

## Datblygu Gwasanaethau Gweledigaethol

Er ein bod fel gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth o weithgarwch, wrth symud ymlaen rydym yn awyddus i gyflwyno gwasanaethau tebyg i "Makerspace" a fydd yn ysbrydoli creadigrwydd ac arloesedd, y cyntaf o'u bath yng Nghymru, gan annog defnyddwyr gwasanaethau nad ydynt yn rhai traddodiadol, gyda'r nod o integreiddio gwasanaethau craidd traddodiadol ar flaen ein meddyliau.

### Stordy creadigol

Mannau dysgu cydweithredol sy'n annog arloesedd a dylunio cynnyrch lle mae pobl yn dod at ei gilydd i greu, rannu adnoddau a gwybodaeth, gweithio ar brosiectau, rhwydweithio ac adeiladu; gan esgor ar don newydd o greadigrwydd, datrys problemau ac entrepreneuriaeth.

Gallai'r math o dechnoleg sydd ar gael wrth lansio MakerSpace gynnwys;

- Argraffwyr 3D a modelu 3D
- Caledwedd a meddalwedd trosi camerâu, VHS a DVD
- Bythau recordio sain a golygu, bysellfwrdd 'midi', cymysgwyr sain, offer DJ, meicroffonau
- Bythau recordio fideos/delweddau a golygu
- Cyfrifiaduron â meddalwedd recordio a golygu
- Cyfrifiaduron â meddalwedd ar gyfer codio rhaglenni symudol; gemau; rhaglenni meddalwedd; cronfeydd data
- Sgriniau gwyrdd ar gyfer cynhyrchu fideos
- Goleuadau symudol
- Rhaglenni LEGO Mindstorm
- Sgriniau Rhyngweithiol
- Clustffonau Rhith Wirionedd
- Google Glass
- Dyfeisiau symudol (llechi a ffonau)
- Dyfeisiau chwarae gemau (consolau a chyfrifiaduron)
- Camerâu digidol a recordwyr fideo
- Dyfeisiau dilyn trywydd ffitrwydd
- Offer Digido
- Dyfeisiau, ceir, robotiaid a dronau rheolaeth o bell

**Cynorthwyir gan y canlynol:**

- Gweithdai, dosbarthiadau a darlithoedd mewn meysydd megis cyfryngau digidol a chyfryngau newydd gyda phartneriaid technoleg newydd.

## Dull Pragmatig

- Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol fod angen sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac mae bob amser yn chwilio am ddull pragmatig i gefnogi'r nod corfforaethol.
- Bydd Gwasanaethau Llyfrgelloedd yn ceisio bodloni galwadau a dyheadau eu defnyddwyr presennol ac yn ceisio ymgysylltu â defnyddwyr a chynulleidfaoedd newydd.
- Byddwn yn defnyddio dull cytbwys o ran darparu mynediad i adnoddau digidol traddodiadol a newydd, ac yn cefnogi cwsmeriaid gyda staff medrus ar yr adeg gywir, yn y lleoliadau cywir ac yn unol â diben craidd y gwasanaeth.